Ar ôl eich triniaeth colposgopi (dolen / laser)

Mae'r daflen yma'n cynnig gwybodaeth a chyngor i'ch helpu ar ôl biopsi dolen (LLETZ) neu driniaeth laser ar wddf eich croth (eich serfics).

Beth allech chi ei ddisgwyl ar ôl biopsi dolen (LLETZ) neu driniaeth laser

Efallai y byddwch chi'n teimlo poen ysgafn fel poen mislif, a gallwch chi gymryd eich meddyginiaeth dros-y-cownter arferol i leddfu'r boen.

Mae'n syniad i chi aros gartref i orffwys am weddill y diwrnod ac osgoi codi pethau trwm neu wneud ymarfer corff egnïol iawn am rai dyddiau.

Efallai y byddwch chi'n gwaedu'n ysgafn neu bydd rhedlif o'ch gwain am dair neu bedair wythnos (neu hyd at chwe wythnos weithiau). Byddai'n syniad i chi wisgo pad neu dywel mislif rhag i'r rhedlif staenio'ch dillad.

Os cafodd ïodin ei ddefnyddio yn ystod y driniaeth, efallai bydd gennych chi redlif lliw brown tywyll am rai dyddiau hefyd.

Dylech chi osgoi cael rhyw, defnyddio tamponau, nofio neu orwedd yn hir mewn bath am bedair wythnos ar ôl y driniaeth.

Yr adeg i ofyn am fwy o gyngor

Os ydych chi'n gwaedu'n drwm (heblaw am eich mislif) neu fod gennych chi redlif annymunol, twymyn neu rydych chi'n teimlo'n wael, dylech chi gysylltu â'ch meddyg neu'r clinig colposgopi. Gwnewch hynny hefyd os ydych chi'n cael poenau yn rhan isaf eich abdomen ac nid yw'ch meddyginiaeth dros-y-cownter arferol yn lleddfu'r boen.

Fyddaf i'n cael fy ngweld eto?

Fe fydd eich Colposgopydd yn rhoi gwybod i chi, mewn llythyr fel arfer. Ar ôl y driniaeth, mae angen i'r mwyafrif o fenywod gael prawf taeniad mewn chwe mis a bydd rhai'n cael archwiliad colposgopi ychwanegol.

Sut ddylwn i gysylltu â fy nghlinig colposgopi?

Mae enw a rhif ffôn y person cyswllt yn eich clinig yn dilyn.